Crynodeb o Asesiad Lles Wrecsam

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cymru yn wynebu heriau mawr, rŵan ac yn y dyfodol. Pethau fel tlodi, materion economaidd, poblogaeth sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn gyfraith newydd sy'n ceisio cael gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau hyn a gwella dyfodol hirdymor Cymru.

Mae'r Ddeddf yn nodi *saith gôl lles* sy'n cwmpasu pethau fel cyflogaeth, yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb, cymunedau, diwylliant, yr iaith Gymraeg, a'n heffaith ar draws y byd:

Y saith nod lles ar gyfer Cymru	
1. Cymru lewyrchus	Lle mae economi gref, mae gan bawb swyddi ac nid oes unrhyw dlodi
2. Cymru wydn	Lle rydym yn edrych ar ôl yr amgylchedd naturiol ac yn barod am newidiadau amgylcheddol fel llifogydd
3. Cymru iachach	Lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn derbyn gofal ac mae pawb yn iach
4. Cymru fwy cyfartal	Lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau
5. Cymru o gymunedau cydlynol	Lle mae cymunedau yn ddeniadol, yn ddiogel ac wedi eu cyd-gysylltu'n dda ac mae pobl yn byw'n hapus gyda'i gilydd
6. Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	Lle mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwahanol bethau, mae treftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'i diogelu, a gall llawer o bobl siarad Cymraeg
7. Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang	Lle rydym yn meddwl am effaith y pethau rydym yn eu gwneud er mwyn gwella Wrecsam, ar bobl eraill o amgylch y byd

Mae'r Ddeddf, sy'n gyfreithiol rwymol ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill, yn rhoi manylion am sut y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn weithio gyda'i gilydd i wella lles Cymru. Mae'n datgan bod rhaid i gyrff cyhoeddus lunio 'Asesiad Lles Lleol', a defnyddio'r asesiad hwnnw i bennu amcanion lles lleol a chynhyrchu 'Cynllun Lles Lleol', i wella lles eu hardal.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y bartneriaeth o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws ardal, yw'r grym gyrru ar gyfer darparu asesiadau a chynlluniau ar lefel leol. Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, mae Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys y cyngor, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tân ac achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr heddlu, gwasanaethau prawf, Prifysgol Glyndŵr a Choleg Cambria, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ran gyntaf Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus o'r broses honno - *Asesiad Lles Wrecsam*. Mae fersiwn llawn o Asesiad Lles Wrecsam ar gael www.bgcwrecsam.org/y-wrecsam-a-garem

Asesiad Lles Wrecsam

Mae'r asesiad yn seiliedig ar ddata, ymchwil ac ymatebion i ymgynghoriad.

Yn yr Hydref 2016, lansiodd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus 'Y Wrecsam a Garem', y broses ymgynghori i gefnogi gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn lleol. Gofynnodd yr ymgynghoriad i bawb, "sut hoffech chi weld Wrecsam?". Gofynnodd hefyd beth allai atal hyn rhag digwydd, a beth sydd angen i wasanaethau cyhoeddus a chymunedau ei wneud i wneud i hyn ddigwydd. Mae'r atebion a gafwyd gan bobl i hyn ac ymgynghoriadau eraill wedi cael eu cyfuno â data a gasglwyd a chanfyddiadau ymchwil, i gynhyrchu *Asesiad Lles Wrecsam*.

Mae'r asesiad yn amlinellu'r hyn sy'n bwysig i Wrecsam. Mae'n tynnu sylw at yr heriau a'r materion, y pethau sy'n effeithio ar bobl a'r pethau sy'n bwysig i bobl. Mae'n grwpio'r canfyddiadau gyda'i gilydd o dan bob un o'r saith nod lles. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y rhain yn faterion cymhleth sy'n gorgyffwrdd, gyda llawer ohonynt yn cyfrannu at fwy nag un nod lles, fel y manylir yn atodiad 1.

Bydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r asesiad i ddatblygu cynllun i nodi sut y bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni lles ar gyfer pobl a chymunedau yn y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, cyn i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ddechrau datblygu cynlluniau, mae angen iddynt sicrhau bod yr asesiad wedi nodi cryfderau a gwendidau Wrecsam gan glustnodi'r materion a'r heriau sydd wir yn bwysig i bobl leol.

Felly, cam nesaf yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem' yw sicrhau bod yr asesiad lles yn iawn. Pan fydd Bwrdd y Gwasanaethau Lleol yn gwybod bod 'Asesias Lles Wrecsam' wedi adnabod y pethau sydd yn wirioneddol bwysig. Bydd yn llunio rhestr o flaenoriaethau ar gyfer Wrecsam (ac yn gwirio eich bod yn hapus); cyn llunio cynllun i'w gwella, a nodi sut y bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i greu 'Y Wrecsam a Garem'.

Cam 1 - Ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem'

Cynhaliwyd cam cyntaf ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem' yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016 i lywio'r Asesiad Lles. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol, arolygon, stondinau marchnad, grwpiau ffocws a gweithdai i gasglu barn pobl ar y saith gôl lles a dyheadau pobl ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â barn am yr hyn y gallai atal y rhain rhag cael eu cyflawni a beth gall gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau ei wneud i'w gwneud yn realiti.

Gofynnwyd i bobl pa mor gryf oeddent yn cytuno bod Wrecsam yn lle sy'n adlewyrchu pob un o'r saith nod lles a amlinellir yn y Ddeddf. Gofynnwyd iddynt roi sgôr i bob nod ar gyfradd o 1 i 10, gydag 1 = anghytuno'n gryf a 10 = cytuno'n gryf. Roedd y canlyniadau'n awgrymu fod yr ymatebwyr yn credu bod dipyn o ffordd gan Wrecsam i fynd i gyflawni pob un o'r saith nod lles. Bod yn 'Lle sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang' oedd y nod y credwyd fod Wrecsam bellaf i ffwrdd o'i chyflawni (sgôr 3.89) ac yna bod yn 'Lle Ffyniannus' (sgôr 4.09) a bod yn 'Lle Iachach' (hefyd yn 4.09). Credwyd mai bod yn 'Lle gyda Diwylliant Bywiog' (sgôr 5.35) oedd y nod y mae Wrecsam agosaf at ei chyflawni ac yna bod yn 'Lle Gwydn' (sgôr 5.17). Fodd bynnag, cafodd y nodau hyn sgoriau cytundeb isel ar y cyfan.

Cafodd yr adborth a gasglwyd am ddyheadau pobl ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ei ddadansoddi i grynhoi'r dyheadau allweddol ar gyfer Wrecsam yn y dyfodol. Ar y cyfan, nodwyd 44 o themâu dyheadau'r dyfodol. Mae'r tabl isod yn amlygu'r dyheadau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Wrecsam a ddaeth yn brif flaenoriaethau cyffredinol, gan eu bod wedi eu nodi gan y nifer uchaf o ymatebwyr:

Dyhead	Disgrifiad	Amlder
Creu canol tref ffyniannus	Adfywio canol y dref, lleihau nifer y siopau gwag, gwella'r cynllun a chael economi gymysg	218
Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i leihau	Gan gynnwys yfed, cyffuriau, begera a digartrefedd	91
Gwrando ar, ac ymateb i farn y cyhoedd	Gwrando ar yr hyn mae pobl leol eisiau a'i angen, ystyried buddiannau'r Fwrdeistref Sirol gyfan, gwella/ newid gwleidyddion, a strwythurau/ prosesau gwleidyddol	77
Gwneud Wrecsam yn ddeniadol	Gwella ymddangosiad a glendid	62
Darparu mwy o 'bethau i'w gwneud'	Gweithgareddau/ digwyddiadau / gwyliau/ gweithgareddau diwylliannol – ac yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc	47
Annog ysbryd a balchder cymunedol	Annog ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder	41
Gwella cludiant	Gwella cludiant cyhoeddus – mynediad,	41

cyhoeddus	argaeledd a chysylltiadau y tu mewn a'r tu allan i Wrecsam	

Gôl Lles 1 – Wrecsam Ffyniannus - *lle mae economi gref, mae gan bawb swyddi ac nid oes unrhyw dlodi.*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Gwella addysg a chyflawniad ysgol	Er bod cyflawniad mewn ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 (h.y. y 2 flynedd olaf yn yr ysgol uwchradd) yn gwella yn Wrecsam, mae'n dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Mewn ymgynghoriadau diweddar, mynegodd rhai pobl bryderon am ansawdd addysg yn Wrecsam, gan awgrymu bod angen gwneud gwelliannau.
Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd	Dywedir bod aelwyd mewn tlodi os yw cyfanswm incwm blynyddol y cartref yn is na 60% o gyfartaledd Prydain Fawr. Amcangyfrifir bod tua 26% o gartrefi yn Wrecsam yn byw mewn tlodi, gyda mwy na 6,000 o blant yn byw yn y cartrefi hyn.
Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth	Mae gan boblogaeth oed gwaith Wrecsam lefelau o gymwysterau sy'n debyg ar y cyfan i gyfartaledd Cymru, ac mae'n gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Wrecsam ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar ddarparu prentisiaethau a rhaglenni dysgu yn seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.
Cyfleoedd gwaith lleol	O ran cyflogaeth, mae gan Wrecsam batrwm cymhleth o bobl yn cymudo i mewn ac allan o'r ardal i weithio. Ar gyfartaledd, mae cyflogau wythnosol ar gyfer gwaith llawn amser yn Wrecsam yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (ar £486 o gymharu â £540 yr wythnos, sef cyfartaledd Prydain Fawr). Mae nifer sylweddol o bobl yn cael eu cyflogi ym maes gweithgynhyrchu a'r sector cyhoeddus (y ddau yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol). Mae pryder ynghylch gorddibyniaeth ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus, wrth i bwysau ariannol parhaus ar wariant cyhoeddus barhau i roi rhai o'r swyddi hyn dan fygythiad. Roedd cyflogaeth yn bryder sylweddol i bobl mewn ymgynghoriadau diweddar.
Cefnogi busnesau bach	Mae cyfran uchel o fusnesau yn yr ardal sy'n gymharol fach o ran maint. Amcangyfrifir bod 74% o fusnesau yn cyflogi llai na phedwar o bobl, a 14% arall yn cyflogi rhwng pump a naw o bobl. Ers 2011, mae'r nifer o fusnesau bach yn yr ardal wedi cynyddu tua 9%.
Sector cyflogaeth allweddol –gofal cymdeithasol ac iechyd	Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu dros 10,750 o swyddi yn Wrecsam. Fodd bynnag, ar draws Gogledd Cymru mae anawsterau sylweddol wrth recriwtio meddygon teulu a nyrsys - sydd yn bryder ar gyfer y dyfodol. Mae yna hefyd newidiadau allweddol sy'n debygol o gyflwyno heriau i'r sector iechyd; er enghraifft, poblogaeth sy'n heneiddio, penderfyniadau gwleidyddol, a thechnoleg yn newid.
Ased economaidd allweddol - Ystâd	Mae tua 25 o wahanol ystadau diwydiannol a pharciau busnes yn Wrecsam, ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam yw'r

Ddiwydiannol Wrecsam	mwyaf. Mae tua 360 o fusnesau sy'n darparu cyflogaeth i tua 10,000 o bobl mewn amrywiaeth o sectorau busnes (e.e. cyllid, modurol, peirianneg, bwyd a diod). Ar hyn o bryd, mae mwy na £1 filiwn y dydd yn cael ei buddsoddi i'r Stad, a disgwylir y bydd yn creu 2,500 o swyddi ychwanegol dros y 3 blynedd nesaf.
Ased economaidd allweddol – Carchar EM Berwyn	Ynghyd â'r manteision y mae adeiladu Carchar EM Berwyn eisoes wedi dod i'r ardal (gan gynnwys gwariant o £30 miliwn ar fusnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth i bobl leol); bydd buddiannau economaidd parhaus o'r carchar ar ôl iddo agor (yng Ngwanwyn 2017). Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r carchar, yn ogystal â chyfleoedd o fewn y sector lletygarwch i ddarparu gwasanaethau llety a bwyd i ymwelwyr â'r carchar.
Ased allweddol – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw'r unig brifysgol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru ac mae'n chwarae rôl allweddol yn Wrecsam a'r rhanbarth ehangach. Amcangyfrifir ei fod yn cyfrannu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r economi leol. Mae bron i 6,800 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr, yn ddysgwyr lleol ac yn rhai o bob cwr o'r byd, sy'n helpu i ddod â syniadau a doniau newydd, yn ogystal â hybu Wrecsam fel lle. Glyndŵr yw'r brifysgol orau yng Ngogledd Cymru ar gyfer myfyrwyr sy'n mynd i gyflogaeth ar ôl graddio.
Canol Tref Wrecsam	Wrecsam yw'r dref fwyaf yng Ngogledd Cymru, gydag adwerth canol y farchnad iach a phresenoldeb ystod o wasanaethau rhanbarthol (e.e. Ysbyty Maelor Wrecsam a Phrifysgol Glyndŵr). Mewn ymgynghoriadau diweddar, mae pobl wedi mynegi pryder am ganol y dref, a phan ofynnwyd am ddyheadau ar gyfer Wrecsam, yr ymateb mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd hwnnw yn ymwneud â chael 'canol tref ffyniannus'. Mae newidiadau mewn manwerthu modern, y ffordd y mae pobl yn siopa a newidiadau economaidd ehangach yn golygu bod angen mabwysiadu ffordd wahanol o adfywio canol trefi. Mae partneriaid yn y sector cyhoeddus, busnesau lleol a'r gymuned ehangach wedi gweithio gyda'i gilydd ar sail 'cynllun mawr canol tref' sy'n anelu at fynd i'r afael â'r angen am galon newydd yng nghanol y dref gydag ystod amrywiol o siopa, cyfleusterau hamdden, celfyddydau ac atyniadau diwylliannol.

Nod Lles 2 – Wrecsam Gwydn - *lle rydym yn edrych ar ôl yr amgylchedd naturiol ac yn barod am newidiadau amgylcheddol fel llifogydd.*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Diogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth gan greu gwydnwch	Mae gan ardal Wrecsam dirwedd amrywiol gyda nifer o ardaloedd rhagorol (gan gynnwys Castell y Waun a Dyffryn Glyn Ceiriog). Mae sawl ardal o ofodau gwyrdd gan gynnwys saith parc gwledig, dwy Warchodfa Natur Genedlaethol ac 20 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. O gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, mae Sir Wrecsam yn drefol yn bennaf, gyda blociau bach o ffermydd/coetir a rhai ystadau gwledig mwy.
Diogelu rhag llifogydd	Ar draws Wrecsam, mae 1,610 o eiddo yr ystyrir eu bod mewn perygl o lifogydd, gyda'r prif ffynonellau risg yn cynnwys llifogydd afonydd, llifogydd dŵr wyneb, llifogydd carthffosydd, llifogydd dŵr daear a llifogydd cwrs dŵr cyffredin.
Cefnogi'r economi wledig	Mae ffermwyr yn rheoli 75% o gyfanswm y tir yn Wrecsam, sy'n cael effaith ar dwristiaeth, rheoli coetiroedd, diwydiannau bwyd ac ati. Yn arbennig, caiff llawer o'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol (sy'n gyfrifol am ddenu ymwelwyr i'r ardal) eu cynnal a'u cadw a'u rheoli gan ein ffermwyr. Ni does modd gwybod a fydd y cyllid Ewropeaidd a dderbynnir ar hyn o bryd i gefnogi ffermio yn parhau yn dilyn canlyniad y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd.
Newid yn yr Hinsawdd a lleihau allyriadau carbon	Mae'r DU yn defnyddio 17% yn llai o ynni nag yr oedd yn 1998, ac mae mwy o'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yn dod o ffynonellau adnewyddadwy (sef unrhyw ffynhonnell ynni sy'n digwydd yn naturiol ac nad yw'n ddisbyddadwy, megis gwynt, solar, llanw a phŵer hydro). Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau i leihau allyriadau carbon o 3% bob blwyddyn, gyda disgwyl i sefydliadau yn y sector cyhoeddus arwain drwy esiampl.

Nod Lles 3 - Wrecsam Iachach - *lle gofelir am les corfforol a meddyliol pobl a lle mae pawb yn iach*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn	Er y bu gostyngiad cyffredinol dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae nifer y beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn Wrecsam yn dal i fod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; fel y mae canran y babanod newydd anedig sy'n rhy ysgafn, sy'n gallu achosi problemau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae mwy o blant 5 oed yn Wrecsam gyda dannedd coll neu wedi'u llenwi na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.
Annog dewisiadau iach o fyw	Dim ond tua thraean o oedolion yn Wrecsam sy'n bodloni'r lefelau o weithgaredd corfforol a argymhellir, ac sy'n bwyta'r cymeriant o ffrwythau a llysiau a argymhellir. Mae 42% o oedolion yn Wrecsam yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Caiff Wrecsam ei raddio 2[il] yng Nghymru am nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys cyffuriau ac alcohol).
Mynd i'r afael â gordewdra	Mae bron i 60% o oedolion yn Wrecsam dros bwysau neu'n ordew. Mae mwy na 27% o blant 4-5 oed yn Wrecsam yn rhy drwm neu'n ordew (1% yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru), gyda bechgyn yn fwy tebygol o ddod o dan y categori hwn na merched.
Cefnogi'r rhai hynny sydd ag iechyd meddwl gwael	Mae tua 11.6% o bobl yn Wrecsam yn dweud eu bod wedi cael eu trin am salwch meddwl (ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 12.1%). Fodd bynnag, mae'r gyfradd hunanladdiad yn Wrecsam ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er nad oes data ar gael ar gyfer Wrecsam yn unig, mae nifer yr asesiadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio wedi mwy na dyblu yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
Pobl sy'n byw mewn unigedd	Mae nifer yr aelwydydd un person yn Wrecsam wedi cynyddu, a rhagwelir y bydd yn cynyddu eto yn y dyfodol, a'r cynnydd mwyaf sylweddol oedd yn y nifer o aelwydydd pensiynwyr sengl. Gall byw mewn unigedd gael effaith andwyol ar iechyd a lles pobl.
Cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia	Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y bobl yn Wrecsam gyda dementia wedi cynyddu dros y 5 mlynedd diwethaf, a rhagwelir y bydd yn codi eto i tua 60% dros y 12 mlynedd nesaf. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd y nifer cynyddol o bobl hŷn yn y boblogaeth, a disgwyliadau oes uwch.
Cefnogi gofalwyr	Mae mwy na 15,000 o bobl yn Wrecsam yn darparu gofal di-dâl; gyda bron i 30% o'r gofalwyr hyn yn darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos, a chredir bod y mwyafrif ohonynt dros 50 oed. Mae data ymgynghori yn awgrymu bod pobl yn Wrecsam o'r farn bod angen gwneud mwy i gefnogi pobl

	hŷn a'u gofalwyr.
Disgwyliad oes hirach	Mae disgwyliad oes i bobl yn Wrecsam yn parhau i gynyddu, ond felly hefyd y nifer o bobl sy'n dioddef gyda 'chyflyrau cronig' (e.e. pwysau gwaed uchel, diabetes a chlefyd yr ysgyfaint). Gan fod cyfran fawr bobl hŷn yn dioddef o'r cyflyrau hyn, disgwylir y bydd y boblogaeth gynyddol o bobl hŷn yn arwain at alw cynyddol sylweddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.
Pwysau cynyddol ar y gwasanaeth iechyd	Mae llawer o'r materion a drafodwyd mewn mannau eraill yn yr asesiad hwn, megis y boblogaeth sy'n heneiddio, cynyddu nifer y gofalwyr, arwahanrwydd cymdeithasol a byw mewn amddifadedd, yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd. Er bod y nifer o bobl sy'n mynychu Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi aros yn weddol gyson, bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu gweld o fewn 4 awr. Mae data yn awgrymu bod angen gwneud mwy er mwyn sicrhau nad yw pobl yn mynd i Adrannau Achosion Brys pan fyddai modd iddynt gael eu trin yn well yn rhywle arall (e.e. Meddygfa’r Meddyg Teulu).
Bygythiadau sy’n amlygu eu hunain i iechyd a lles	Wrth feddwl am les cenedlaethau'r dyfodol, mae'n bwysig nodi effaith bosibl clefydau newydd (cafodd 40 o glefydau newydd eu canfod yn y genhedlaeth ddiwethaf). Mewn byd sy’n fwyfwy cysylltiedig (e.e. lefelau teithio rhyngwladol cynyddol), mae’r gallu i glefydau ledaenu hefyd yn cynyddu (hen a newydd).

Nod Lles 4 – Wrecsam Fwy Cyfartal - *lle mae pawb yn cael cyfle cyfartal beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Tyfu gydag amddifadedd	Ar y cyfan, nid yw'r disgyblion hynny sy'n cael prydau ysgol am ddim (h.y. y teuluoedd hynny ar yr incwm isaf) yn cyflawni cystal yn yr ysgol â'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn fwy ymysg disgyblion ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd.
Gallu cefnogi'r rhai hynny sydd ag anghenion tai	Mae mwy na 13,000 o anheddau yn y sector tai cymdeithasol yn Wrecsam (h.y. a ddarperir gan y Cyngor neu gymdeithasau tai). Fodd bynnag, mae prinder o eiddo un ystafell wely, sy'n cael yr effaith fwyaf ar rai o'r bobl fwyaf diamddiffyn yn y gymdeithas (e.e. y rhai â phroblemau iechyd meddwl a cyn-filwyr). Mae gostyngiad sylweddol yn y stoc tai cymdeithasol dros y 25 mlynedd diwethaf wedi golygu bod y meini prawf cymhwyster wedi dod yn fwy llym. Mae cymharu prisiau tai cyfartalog gyda chyflogau cyfartalog yn Wrecsam i'w weld yn dangos bod mynd i'r farchnad dai fel perchennog cartref allan o gyrraedd pobl tŷ cyffredin. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad yn dangos bod pobl yn poeni am ddigartrefedd a hefyd am argaeledd tai fforddiadwy yn Wrecsam.
Mynd i'r afael â thlodi tanwydd	Ystyrir bod aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd os ydynt yn gorfod gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar danwydd i gadw eu cartref mewn cyflwr 'boddhaol'. Mae ymchwil cenedlaethol yn dangos mai'r rhai a effeithir fwyaf gan dlodi tanwydd yw pensiynwyr yn byw eu hunain (hynny yw tua 13.5% o boblogaeth Wrecsam), ac aelwydydd rhieni sengl (tua 7% o boblogaeth Wrecsam).

Nod Lles 5 - Wrecsam o Cymunedau Cydlynol - *lle mae cymunedau yn ddeniadol, yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda, a lle mae pobl yn byw yn hapus gyda'i gilydd.*

Heriau a Materion Allweddol	**Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym**
Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd	Mae mynediad daearyddol at wasanaethau allweddol yn ffurfio rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (gan gynnwys: fferyllfeydd, meddygon teulu, ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, swyddfeydd post a siopau). Amcangyfrifir bod tua 8,000 o bobl yn Wrecsam sy'n byw mewn ardaloedd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (o ran cael mynediad at wasanaethau). Mae ymgynghoriad yn dweud wrthym fod pobl yn anfodlon gyda'r sefyllfa bresennol o gael mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, a hefyd yn teimlo bod cyflyrau ffyrdd o amgylch Wrecsam yn wael.
Twf technoleg newydd	Mae gan ardaloedd yn Wrecsam a Sir y Fflint lefelau rhyngrwyd is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Amcangyfrifir mai dim ond 80% o eiddo yn Wrecsam sy'n derbyn gwasanaeth 3G dibynadwy gan y 4 prif ddarparwr ffonau symudol, a dim un ardal yn derbyn gwasanaeth 4G dibynadwy.
Diwallu anghenion tai	Mae nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu creu yn Wrecsam yn disgyn yn is na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd ei angen arnom i ddiwallu anghenion y dyfodol. Mae'r cynnydd mwyaf yn y sector rhentu preifat, gan y bu gostyngiad hefyd mewn argaeledd tai cymdeithasol. Mae angen i'r math o dai sydd eu hangen adlewyrchu'r tueddiadau yn y boblogaeth (e.e. aelwydydd pobl sengl a theuluoedd llai).
Mynd i'r afael â cham-drin domestig	Er y derbynnir yn gyffredinol bod llawer o achosion o gam-drin domestig yn mynd heb ei adrodd, cafwyd dros 380 o droseddau yn 2015/16 gan adrodd am drais. Roedd dros 50% o'r achosion hyn yn cynnwys plant o dan 16 oed mewn rhyw ffordd. Cofnodwyd 280 o droseddau rhywiol yn yr un cyfnod hefyd. Roedd tua 80% o ddioddefwyr yn y ddau gategori yn ferched.
Camddefnyddio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	Mae cam-drin cyffuriau weithiau yn weladwy iawn mewn mannau cyhoeddus ac yn peri pryder i'r cyhoedd. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn dweud wrthym fod y cyhoedd yn Wrecsam yn poeni am leihau trosedd ac ofn troseddau, gyda llawer o bobl yn awgrymu bod gan gamddefnyddio sylweddau rôl sylweddol i'w chwarae yn y mater hwn. Mae pobl wedi mynegi pryder penodol ynghylch nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref.
Carchar EM Berwyn - integreiddio yn y gymuned	Bydd Carchar EM Berwyn yn cymryd ei garcharorion cyntaf ym mis Chwefror 2017 a bydd yn llawn erbyn mis Chwefror 2018. Er y caiff y carchar ei hun ei weithredu gan y sector cyhoeddus, bydd tua thraean o wasanaethau yn allanol,

	gan gynnwys gwasanaethau iechyd ac addysg. Bydd lleoliad carchar yn Wrecsam yn gwneud y logisteg o ymweliadau carchar yn haws i deulu a ffrindiau troseddwyr ar draws Gogledd Cymru, a gallai gael effeithiau lles cadarnhaol ar yr ymwelwyr hyn a'r carcharorion.
Gwirfoddoli	Yr enw ar y corff ymbarél ar gyfer y sector gwirfoddol yn Wrecsam yw Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW). Yn 2014/15, sicrhaodd AVOW leoliadau i 358 o wirfoddolwyr, gan ddarparu cyrsiau hyfforddi ar gyfer bron i 200 o gyfranogwyr. Bu iddynt hefyd ddyfarnu tystysgrifau i gydnabod dros 6,000 awr o weithgarwch gwirfoddoli. Yn 2012/13, amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol bod gwirfoddoli yn cyfrannu tua £24bn i economi'r DU bob blwyddyn.
Ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder	Mae ymgynghoriadau diweddar wedi dangos bod y cyhoedd yn teimlo bod angen gwneud mwy i annog pobl i ddod ymlaen yn well o fewn eu cymunedau, ac i Rhoi grym i gymunedau i weithredu ac ymfalchïo yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt. Yn ogystal â hyn, teimlai pobl, fel aelodau o'u cymuned, y gallent wirfoddoli mwy, a chwarae rhan fwy gweithredol wrth wneud gwelliannau i'w bywydau eu hunain, ac i bobl o'u cwmpas.
Gwneud Wrecsam yn ddeniadol	Mae ymgynghoriadau diweddar wedi dangos bod pobl yn teimlo ei bod yn bwysig iawn gwneud Wrecsam yn fwy deniadol - gan gynnwys ei chadw'n lân a thaclus. Mae nifer fawr o bryderon yn ymwneud â chanol y dref, er bod pobl yn teimlo pe bai'r Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd yn cael ei gwneud yn fwy deniadol (a'i chadw a'i chynnal yn fwy effeithiol) gallai wneud mwy i ddenu ymwelwyr i'r ardal, ac ysbrydoli mwy o ymdeimlad o falchder ymhlith trigolion Wrecsam.

Nod Lles 6 - Wrecsam gyda diwylliant Llewyrchus ble mae'r Gymraeg yn Ffynnu - *lle mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwahanol bethau, mae treftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'i diogelu, a gall llawer o bobl siarad Cymraeg*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Hyrwyddo'r Gymraeg	Amcangyfrifir bod ychydig o dan 13% o boblogaeth Wrecsam yn siarad Cymraeg (y cyfartaledd ar gyfer Cymru yw 19%), gyda'r lefelau uchaf yn ardaloedd gwledig y sir. Yn y flwyddyn ysgol 2015/16, roedd 8 allan o 59 o ysgolion cynradd yn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf neu ddwyieithog; a dim ond 1 o'r 9 ysgol uwchradd yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
Cefnogi twristiaeth	Dros y blynyddoedd diwethaf mae lefelau twristiaeth yn Wrecsam wedi cynyddu'n sylweddol. Mae asedau twristiaeth yn cynnwys: Traphont Ddŵr Pontcysyllte (gyda'i Statws Treftadaeth y Byd), a safleoedd fel Neuadd Erddig, Castell Y Waun, Coed Ywen San Silyn ac Owrtyn a safleoedd treftadaeth ddiwydiannol megis Chwarel y Mwynglawdd, Brymbo, Ymddiriedolaeth Tramffordd y Glyn ac adnoddau Amgueddfa ac Archif Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Amcangyfrifir bod y Fwrdeistref Sirol wedi denu dros 1.86 miliwn o ymwelwyr yn 2015, a bod twristiaeth wedi dod â thua £11.9 miliwn i'r economi leol.
Diwylliant sy'n ffynnu	Tystiolaeth genedlaethol yn awgrymu y gall mynediad i'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar: les unigolion, lles cymunedol, addysg a'r economi. Yn Wrecsam, amcangyfrifir bod tua 2,450 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector hwn. Fe dynnwyd sylw at gael rhagor o weithgareddau a phethau i'w gwneud gan nifer o bobl mewn ymgynghoriadau diweddar.

Nod Lles 7 – Wrecsam sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang - *lle rydym yn meddwl am effaith y pethau rydym yn eu gwneud er mwyn gwella Wrecsam, ar bobl eraill o amgylch y byd*

Heriau a Materion Allweddol	Yr hyn rydym yn ei wybod a'r Hyn rydych wedi ei ddweud wrthym
Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff	Mae tua 80,000 tunnell o wastraff trefol yn cael ei gynhyrchu yn Wrecsam bob blwyddyn. Cafodd 56.4% o'r gwastraff hwn ei ailgylchu yn 2014/15 (sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru). Er bod cyfraddau ailgylchu wedi gwella'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf (pan oedd cyfraddau ailgylchu mor isel â thua 14%), mae mwy o waith i'w wneud er mwyn i Wrecsam gyrraedd ei tharged ailgylchu o 70%.
Allyriadau carbon tai a chludiant	Bu buddsoddiad sylweddol yn effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor, yn ogystal â gwelliannau i eraill drwy gynlluniau eraill a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar ddod yn nodi fframwaith ar gyfer datblygu cymunedau sy'n lleihau'r galw am ynni. Mae partneriaid yn y sector cyhoeddus yn parhau i weithio gyda'i gilydd i nodi cynllun teithio cynaliadwy ar gyfer Wrecsam, a fydd yn diwallu anghenion yr ardal yn ystod y deng mlynedd ar hugain nesaf.

Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu pum ffordd allweddol o weithio ar gyfer sefydliadau’r gwasanaethau cyhoeddus, sef:

- Atal
- Cysylltiad
- Hirdymor
- Integreiddio
- Cydweithio

Bydd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn edrych i wella eu perfformiad yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, yng Ngham 1 ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', gofynnwyd i bobl nodi pa mor dda y maent yn teimlo bod sefydliadau’r gwasanaethau cyhoeddus yn ymarfer pob un o’r rhain ar hyn o bryd. Mae'r canlyniadau yn dangos barn pobl bod gan holl bartneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Lleol ffordd bell i fynd i gyrraedd y ffyrdd hyn o weithio.

Yn benodol, amlinellodd Cam 1 'Y Wrecsam a Garem' bryder ynghylch yr angen i sefydliadau’r gwasanaethau cyhoeddus wneud mwy i wrando ar farn y cyhoedd a gweithredu arno.

O ran boddhad cyffredinol â gwasanaethau cyhoeddus, mae'r data sydd ar gael i’w weld yn dangos y bu gwelliant cyffredinol o ran bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae rhai pryderon ynghylch boddhad gyda gwasanaethau'r Cyngor.

Mae disgwyliadau a galwadau ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu a disgwylir iddynt gynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Mewn amseroedd o gynildeb parhaus (a thoriadau i wariant sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus), mae poblogaeth Wrecsam yn parhau i dyfu, mae pobl yn byw'n hirach, ac mae disgwyl i wasanaethau allweddol gyflawni canlyniadau sy’n parhau i wella.

Atodiad 1

Llewyrchus (1)	Gwydn (2)	Iachach (3)	Mwy cydradd (4)	Cymunedau Cydlynol (5)	Diwylliant (6)	Byd-eang (7)

Nod llesiant 1 – Llewyrchus		1	2	3	4	5	6	7
1	Gwella addysg a chyflawniad ysgol							
2	Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd							
3	Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth							
4	Cyfleoedd cyflogaeth lleol							
5	Cefnogi busnesau bach							
6	Sector cyflogaeth allweddol – iechyd a gofal cymdeithasol							
7	Ased Economaidd Allweddol – Ystad Ddiwydiannol Wrecsam							
8	Ased Economaidd Allweddol – Carchar Ei Mawrhydi Berwyn							
9	Ased Allweddol – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam							
10	Canol tref Wrecsam							

Nod Llesiant 2 – Gwydn		1	2	3	4	5	6	7
1	Gwarchod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth gan greu gwydnwch							
2	Newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon							
3	Gwarchod rhag llifogydd							
4	Cefnogi'r economi wledig							
Nod Llesiant 3 – Iachach		1	2	3	4	5	6	7
1	Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn							
2	Pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach							
3	Mynd i'r afael â gordewdra (yn cynnwys gordewdra mewn plentyndod)							
4	Cefnogi'r rhai ag iechyd meddwl gwael							
5	Pobl yn byw mewn arunigedd a'u mynediad nhw i wasanaethau							
6	Cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â demensia							
7	Cefnogi gofalwyr							
8	Disgwyliad oes iach i bawb							
9	Pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Iechyd							
10	Bygythiadau i iechyd a lles							
Nod Llesiant 4 – Mwy cydradd		1	2	3	4	5	6	7
1	Magwraeth mewn amddifadedd							
2	Gallu cefnogi'r rhai sy'n wynebu angen cartref							
3	Mynd i'r afael â thlodi tanwydd							
Nod lles 5 – Cymunedau Cydlynol		1	2	3	4	5	6	7
1	Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd							
2	Twf technoleg newydd (gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd a heriau cymdeithasol megis seiberfwlio)							
3	Tai a'r ddibyniaeth gynyddol ar rentu yn y sector preifat							
4	Mynd i'r afael â cham-drin domestig							
5	Effaith cam-drin cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol							
6	Integreddio CEM Berwyn							
7	Gwirfoddoli							
8	Ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder							
9	Gwneud Wrecsam yn ddeniadol							

Nod lles 6 – Diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu		1	2	3	4	5	6	7
1	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg							
2	Cefnogi twristiaeth							
3	Diwylliant sy'n ffynnu							
Nod lles 7 – Yn gyfrifol yn fyd-eang		1	2	3	4	5	6	7
1	Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff							
2	Ynni tai a chludiant ac allyriadau carbon mewn cludiant a tai							